**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion o gyfarfod ar-lein y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Iau, 11 Ionawr 2024 am 10.30 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Roedd y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol, sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027, yn bresennol:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd G L Warren

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Howell, Rheolwr Materion Trefniadaeth a Busnes Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd A Rogers

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

Mr T Morris
Ms S Oliver

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd M Powell

## 46 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sera Evans.

## 47 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan - Buddiant Personol - "Byddaf i'n cyfrannu at y drafodaeth ond fydda i ddim yn pleidleisio gan fy mod i eisoes wedi siarad am y mater"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Rogers - Buddiant Personol - "Rydw i'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun"

**48 Galw i mewn: Penderfyniad y Cabinet i gau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r drefn ar gyfer y cyfarfod, fel sydd wedi'i nodi yn rheol 17 o Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cais i alw penderfyniad i mewn wedi dod i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask, A Rogers a D Grehan ar 21 Rhagfyr 2023, a hynny o fewn y cyfyngiad amser rhagnodedig. Roedd y cais yn cydymffurfio â'r meini prawf perthnasol ac yn cael ei ystyried yn ddilys gan y swyddog priodol.

Roedd y cais galw i mewn yn gofyn bod penderfyniad y Cabinet a gafodd ei wneud yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023 mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, gan symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun, yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gweithdrefnau ar gyfer y cyfarfod. Yn gyntaf, bydd cyfle i'r tri llofnodwr, a lofnododd y ffurflen galw i mewn, i annerch y Pwyllgor, gan nodi eu rhesymau dros gyflwyno cais galw i mewn a pham eu bod yn ystyried y dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad er mwyn ailystyried y mater. Yn ail, bydd y siaradwyr cyhoeddus sydd wedi cofrestru yn cael cyfle i annerch yr Aelodau cyn i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'r Aelod o'r Cabinet ymateb i sylwadau'r siaradwyr. Bydd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael cyfle i drafod y rhesymau dilys sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â'r holl gyfraniadau cyn pleidleisio ar y mater, i weld a ydyn nhw o'r farn y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Cadarnhawyd y byddai gan un o'r llofnodwyr enwebedig, y Cynghorydd D Grehan, yr hawl i wneud anerchiad olaf i'r Pwyllgor yn union cyn cynnal pleidlais ynglŷn â chyfeirio'r mater yn ôl i'w ailystyried. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd fydd egluro a chrynhoi penderfyniad y Pwyllgor.

**<u>Y Cynghorydd S Trask</u>**

Roedd y Cynghorydd Trask o'r farn bod y penderfyniad sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yn anghyflawn a ddim yn berthnasol erbyn hyn. Yn rhan o'i rôl fel Ynad yn y Llys Teulu, dywedodd y Cynghorydd Trask fod gofyn iddo wneud penderfyniadau ar gyfer plant pobl eraill yn aml, a hynny gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo. Yn ei farn ef, dylai hyn fod yn wir ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Dywedodd fod nifer o faterion wedi datblygu ers yr adroddiad gwreiddiol am yr effaith o gau'r ysgol, megis ymateb yr AALl sy'n nodi mai dim ond ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol y darperir cludiant. Mae gan yr ysgol glwb brecwast sy'n ffynnu ac mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r clwb brecwast ymhlith yr uchaf

yn yr ardal. Roedd y Cynghorydd Trask yn ofni y byddai cost gynyddol trafnidiaeth gyhoeddus (£5.20 yw cost tocyn dwyffordd o'r Rhigos i Hirwaun) a'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus annibynadwy a chyfyngedig, yn enwedig mewn argyfyngau, yn rhwystro teuluoedd rhag cael mynediad i’r clwb brecwast a rhaglenni eraill cyn ac ar ôl ysgol. Byddai hyn yn effeithio ar brofiad addysg a datblygiad cymdeithasol llawer o blant ifanc. Mynegodd bryderon ynglŷn â'r tâl am y gwasanaethau gofal plant ychwanegol a chododd bryderon am degwch a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd bregus sy'n groes i flaenoriaeth strategol y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Yn groes i'r adroddiad cychwynnol, dywedodd y Cynghorydd Trask fod Ysgol Gynradd y Rhigos yn adeilad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol, nododd hefyd fod llawer o gwestiynau heb eu hateb am gostau yn y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Trask bryder ynghylch y cynigion mewn perthynas â chludo disgyblion o'r cartref i'r ysgol, roedd ef o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynd yn groes i nod y Cyngor i annog teithio llesol. Nododd fod y ddibyniaeth ar y gwasanaeth cludo disgyblion o'r cartref i'r ysgol, ceir preifat neu wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus wael yn cael effaith negyddol ar yr ymdrechion i leihau ôl troed carbon. Mae'r cynnig yn gwrth-ddweud strategaeth y Cyngor o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru carbon isel, gyda llawer o geir ychwanegol ar y ffyrdd ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Gallai hyn effeithio ar gymuned Rhigos.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Trask fod cau Ysgol Gynradd y Rhigos yn creu heriau sylweddol ar gyfer y gymuned, lles y plant, yr effaith ar deithio llesol a’r materion amgylcheddol.

**Y Cynghorydd A Rogers**

Roedd y Cynghorydd Rogers o'r farn y byddai cyfeirio'r mater yn ôl yn galluogi'r Cabinet i ailystyried barn pawb er budd plant a thrigolion Rhigos.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rogers at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Roedd ef o'r farn na fyddai modd cadw at y tri nod craidd pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rogers yn benodol at erthyglau 13.1 a 13.2 (rhyddid mynegiant) a dywedodd fod cais y Cyngor Ysgol i annerch y Cabinet ar 18 Rhagfyr wedi'i wrthod gan y Cadeirydd gan atal y plant, a oedd yn awyddus i gymryd rhan, rhag lleisio eu barn.

O ran Erthygl 31.2 (Hamdden, chwarae a diwylliant), soniodd y Cynghorydd Rogers am y gofod awyr agored mawr yn Ysgol Gynradd y Rhigos a’r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon allgyrsiol fel pêl-rwyd a phêl-droed sy'n cael eu darparu yn yr ysgol ar hyn o bryd. Roedd yn ofni na fyddai’n bosibl cynnal y gweithgareddau yma pe byddai'r plant yn cael eu symud i Ysgol Gynradd Hirwaun. Gan ystyried y bydd un bws yn gweithredu o Ysgol Hirwaun ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, roedd y Cynghorydd Rogers o'r farn y gallai'r trefniant hwn atal disgyblion rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau allgyrsiol.

Erthygl 27.1 (safon byw ddigonol) - Dywedodd y Cynghorydd Rogers fod y gyfradd tlodi plant wedi codi yng Nghymru a heb y cyfle hynny i fanteisio ar y clwb brecwast am ddim sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd y Rhigos,

(lle mae bron i 50% o’r holl ddisgyblion yn defnyddio’r clwb brecwast) mae'n bosibl y bydd disgyblion yn colli’r cyfle i gael brecwast iach am ddim bob dydd a chymdeithasu â’u cyfoedion. Ychwanegodd fod yr AALl wedi nodi ei bod hi'n bosibl y byddai modd i ddisgyblion fanteisio ar y clwb brecwast, gan ddibynnu ar y trefniadau ar gyfer cludo disgyblion o'r cartref i'r ysgol, ond nid oes unrhyw atebion wedi cael eu cynnig gan y Cabinet.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rogers at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Chomisiynydd Plant Cymru sydd ill dau wedi mynegi pwysigrwydd sicrhau bod llais y plentyn yn rhan ganolog o’r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â'r gwerth sy'n gysylltiedig â chynnwys y disgyblion yn y trafodaethau am yr union bolisïau sy’n effeithio arnyn nhw. Ychwanegodd fod llawer o ymholiadau heb eu hateb drwy gydol y broses ymgynghori megis yr ansicrwydd ynghylch gofal plant a chynlluniau chwarae yn Hirwaun gan fod y darparwr gofal plant preifat yn Hirwaun bellach yn llawn tan fis Medi 2024 ac mae’n debygol o barhau i fod yn llawn y tu hwnt i’r cyfnod hwnnw. Ychwanegodd fod llawer o ymholiadau eraill heb eu hateb megis cost y gwaith sy'n weddill yn Ysgol Gynradd y Rhigos a chostau'r Gwasanaeth Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol rhwng Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos.

Nododd y Cynghorydd Rogers fod y sefyllfa o ran y cwestiynau heb eu hateb yn debyg i'r bwriad i gau Ysgol Gynradd Caegarw yn 2013 pan nad oedd llawer o gwestiynau am faterion ymarferol wedi cael eu hateb. Nododd nad oes modd anwybyddu'r mwyafrif llethol o ymatebion (94.5%) sy'n gwrthwynebu'r cynigion i gau Ysgol Gynradd y Rhigos.

Daeth y Cynghorydd Rogers â’i gyfraniad ef i ben drwy drafod yr opsiwn arall sydd ar gael mewn perthynas ag Ysgol Gynradd y Rhigos, sef cynnal y sefyllfa bresennol a gosod paneli solar ac offer ar gyfer ardal awyr agored newydd i’r plant. Ni fyddai angen buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru na Chyngor RhCT ar gyfer cludo disgyblion rhwng y cartref a'r ysgol a ni fyddai'r cynlluniau'n amharu ar y rhieni, cynhalwyr, disgyblion a staff. Buddsoddiad ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos, gydag arian cyfatebol gan fusnesau lleol neu grantiau gan fod yr ysgol wedi’i disgrifio fel ysgol ynni effeithlon sydd ag arolwg cyfoes o gyflwr eiddo.

**<u>Y Cynghorydd D Grehan</u>**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Grehan at bwyntiau 1 a 6 o'r rhesymau sydd wedi'u nodi yn y ffurflen galw i mewn, sef *effaith negyddol y cynnig ar ddisgyblion a chymuned ehangach Rhigos* yn enwedig yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy’n ei gwneud hi'n ofynnol i GBSRhCT feddwl am effaith hirdymor ei benderfyniadau ar gymunedau a hynny er mwyn atal materion megis tlodi, anghydraddoldebau o ran iechyd a newid yn yr hinsawdd a phwynt 6 sy'n cyfeirio *at* effaith gadarnhaol a negyddol bosibl y penderfyniad.

Ychwanegodd y Cynghorydd Grehan y dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet oherwydd yn ei farn ef, nid oedd y pwyntiau hyn wedi'u hystyried yn llawn. Er bod hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi’i roi i bob Aelod yn ddiweddar, ni roddwyd y sylw cywir i’r mater hwn a dylid rhoi mwy o ystyriaeth i effeithiau negyddol y cynnig gan y bydd yn effeithio ar genedlaethau’r dyfodol. Dywedodd fod y Comisiynydd wedi datgan bod sicrhau mynediad i addysg leol o safon uchel gydag allyriadau carbon isel yn bwysig iawn ac y bydd yn parhau i effeithio ar les pobl sy'n byw yng Nghymru. Y

targedau llesiant, Cymru lewyrchus, Cymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus. Bydd effaith negyddol ar y pedwar targed Lles ar gyfer disgyblion y Rhigos.

Dywedodd y Cynghorydd Grehan fod y Comisiynydd yn gofyn y cwestiynau canlynol:

Un – ai penderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan yr Awdurdod Addysg Lleol yw'r rhain neu a yw'r penderfyniadau wedi'u gwneud ar y cyd â'r trigolion lleol, ac a fydd y cynigion o fudd i'r gymuned, ai syniadau'r bobl mewn grym neu'r trigolion yn y gymuned yw'r rhain?

Dau - Sut bydd y cynigion hyn yn effeithio ar gynhwysiant? Bydd disgyblion y Rhigos yn ei chael hi'n anodd cymdeithasu yn Hirwaun oherwydd y pellter a phroblemau o ran trafnidiaeth. Ychwanegodd fod Ysgol Gynradd y Rhigos wedi cael ei disgrifio gan Estyn fel calon y gymuned a bydd yr agwedd hon yn cael ei cholli pe byddai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig. A yw'r penderfyniad yn annog pobl i ddefnyddio'u ceir yn fwy aml gan y bydd gofyn i rieni gasglu a gollwng eu plant, bydd y cofnodion cyhoeddus yn dangos na roddwyd ystyriaeth i'r materion hyn pan godwyd y pwyntiau yn ystod cyfarfodydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D Grehan at ymatebion y gymuned i'r ymgynghoriad, yn benodol mewn perthynas â'r effeithiau hirdymor. Cafodd y materion yma eu codi gan ddisgyblion, athrawon a'r gymuned, yr union bobl y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnyn nhw. Dywedodd mai ysgol fach wledig yw Ysgol Gynradd y Rhigos sy'n elwa o arian grant, sydd wedi'i sicrhau yn rhan o gais gan y Cyngor hwn. Ychwanegodd fod y broses benderfynu wedi methu ag ystyried effeithiau negyddol cau ysgol fach wledig sy'n darparu llawer o agweddau cymdeithasol ac academaidd, sy'n hanfodol o ran ymgysylltu â disgyblion a rhieni o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn cymunedau gwledig. Pwysleisiodd y Cynghorydd Grehan fod tynnu ysgol o'r pentref yn mynd yn groes i'r holl bolisïau sy'n annog cymunedau mwy iach a chynhwysol gan gynnwys rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Daeth y Cynghorydd Grehan â'i gyfraniad ef i ben drwy nodi y dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet er mwyn i'r rhesymau yma gael eu trafod.

Yn dilyn y cyflwyniadau gan y tri llofnodwr, rhoddwyd cyfle i'r siaradwyr cyhoeddus, Mr J Morris a Ms S Oliver, annerch y Pwyllgor am gyfnod o bum munud yr un.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch iddyn nhw am eu cyfraniadau gwerthfawr a rhoddodd gyfle i Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd egluro pwrpas y cyfarfod sef ystyried y saith rheswm penodol sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen galw i mewn a rhoi cyfle i'r Aelodau benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, a hithau wedi ysgrifennu'r adroddiad, yn cydnabod bod hwn yn fater emosiynol ac aeth i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn y sesiwn galw i mewn.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith bod asesiad economaidd-gymdeithasol ac asesiad cydraddoldeb llawn wedi'u cynnal yn rhan o'r broses ymgynghori a bydd y ddogfen yma, a hithau'n ddogfen fyw, yn parhau i gael ei diwygio drwy gydol y broses. Yn ogystal â hyn, mae asesiad o'r effaith ar y gymuned hefyd wedi'i gynnwys a'i ysgrifennu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer

2018. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod gwybodaeth mewn perthynas â sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'i chynnwys yn y ddau adroddiad i'r Cabinet (mae modd gweld yr wybodaeth yma o hyd ar wefan y Cyngor).

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod yr holl ymatebion a dderbyniwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys sylwadau'r plant o Ysgol Gynradd y Rhigos, wedi cael eu gweld gan y Cabinet a bod yr holl wybodaeth ar gael i Aelodau'r Cabinet. Ychwanegodd fod plant a phobl ifainc wedi cymryd rhan weithredol yn y broses ymgynghori a bod y Cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaethau o ran y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mae'r plant wedi mynegi eu barn. Cafodd plant Ysgol Gynradd y Rhigos gyfle i fynegi eu barn am eu hysgol. Ymgynghorwyd hefyd â Chynghorau Ysgol Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y cyflwyniad power point a roddwyd yn yr ysgol wedi'i gynnwys a'i grynhoi yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at rai pryderon a godwyd mewn perthynas ag amcanion y cynnig a oedd yn groes i nodau cynnig arall yr oedd y Cyngor yn ymgynghori arno h.y. y cynnig mewn perthynas â Chludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol a Chlybiau Brecwast (2.8 milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos heb unrhyw effaith uniongyrchol ar gymhwysedd plant sy'n manteisio ar y gwasanaeth cludo disgyblion o'r cartref i'r ysgol ac mae'r ail fater wedi cael sylw yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet).

Mae'r penderfyniad i fwrw ymlaen yn absenoldeb data anghyflawn wedi'i nodi fel pryder, dywedodd y Cyfarwyddwr fod data dilys wedi'i ddarparu i Aelodau'r Cabinet yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr arolwg cyflwr yn llai na 5 mlwydd oed a bod rhwng £170-180K wedi'i fuddsoddi yn yr ysgol i'w gwneud yn gynnes, yn ddiogel ac yn adeilad sy'n dal dŵr. Ychwanegodd fod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Arolwg diweddaraf Estyn hefyd yn llai na phum mlwydd oed, mae'r data niferoedd disgyblion yn seiliedig ar ddata dosbarth yn ogystal â niferoedd gwirioneddol y ddwy ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod rhagamcanion o ran disgyblion yn seiliedig ar y dull cymeradwy o gyfrifo data yn seiliedig ar ddefnyddio data genedigaethau byw ar gyfer lleoliadau meithrin yn ogystal â dull cadw cohort o'r dosbarth derbyn i flwyddyn chwech sy'n dechneg dda a dibynadwy o ragweld niferoedd yn yr ysgol yn y dyfodol.

O ran yr opsiynau eraill a gyflwynwyd gan ymgyngoreion er mwyn mynd i'r afael â'r lleoedd dros ben yn yr ysgolion,  dywedodd y Cyfarwyddwr fod ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i'r holl opsiynau posibl y cyfeirir atynt yn y ddogfennaeth a ddarparwyd i'r Cabinet. Mae argymhelliad y Swyddogion yn parhau i fod yn ddilys heb unrhyw newidiadau ac ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y cynnig i symud ymlaen i'r cam nesaf yn parhau i gael ei argymell.

O ran ennill dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o’r effaith bosibl, mae'r effaith gadarnhaol a'r effaith negyddol bosibl wedi’u cynnwys yn yr holl asesiadau risg ac wedi’u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori a’r holl ddogfennau a ysgrifennwyd, a hynny gan gydymffurfio’n llawn â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr adborth a gafodd ei gyflwyno gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr. Yn ystod y cyfarfod yma mynegwyd pryder gan nad oedd yr adborth wedi’i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet a gafodd ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr. Cadarnhaodd fod yr adborth wedi'i dderbyn cyn cyfarfod y Cabinet, a

gofynnodd Aelodau'r Cabinet am eglurhad pellach am yr adborth yn ei gyfarfod (cafodd hyn ei gynnwys yn y cofnodion cyhoeddus ac mae modd eu gweld nhw ar wefan y Cyngor).

I gloi, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr mai Ysgol Gynradd y Rhigos yw'r ysgol leiaf yn RhCT, bydd niferoedd disgyblion yn gostwng dros y 5 mlynedd nesaf, nifer y disgyblion erbyn hyn yw 49 (sydd wedi gostwng o 51 ers dechrau'r cyfnod ymgynghori fel y cofnodwyd yn flaenorol). Ychwanegodd y byddai'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn effeithio ar hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol ac ar addysg y Plant yn y dyfodol oherwydd yr heriau ariannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod ymateb ffurfiol Estyn yn nodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ardal a does dim gwybodaeth sy'n peri pryder am y naill ysgol na'r llall wedi'i dwyn i sylw Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant y Cyngor.

Cafodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg gyfle i annerch y Pwyllgor a dywedodd fod yr angerdd sydd gan drigolion y Rhigos dros eu pobl ifainc yn angerdd a rennir gan fod pawb eisiau sicrhau'r deilliannau gorau posibl i bobl ifainc RhCT. Roedd yr Aelod yn hyderus bod y Cyfarwyddwr Addysg wedi ymateb yn llawn i'r saith maes a amlinellwyd yn y ffurflen galw i mewn. Atgoffodd yr Aelod o'r Cabinet y Pwyllgor fod yr ALl yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru o ran adolygu lleoedd dros ben mewn ysgolion ar draws y rhanbarth ac ychwanegodd y byddai peidio â gwneud hynny yn esgeuluso ei rôl fel awdurdod. Dywedodd fod y cynigion gerbron y Cabinet wedi'u craffu'n llawn ar bob cam a'u bod wedi herio'r data a'r rhesymeg a ddarparwyd gan swyddogion. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn hyderus bod y data a'r rhesymeg yn gadarn ac yn gywir a bod yr ymgynghoriad wedi bod yn deg ac yn gywir.

Disgrifiodd yr Aelod o'r Cabinet ei rôl fel un sy'n dwyn Uwch Swyddogion i gyfrif ac mae'n hyderus ei fod ef wedi gwneud hyn, yn yr un modd ag y mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cael cyfle i adolygu'r cynigion a chyflwyno'u sylwadau i'r Cabinet.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet nad yw'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd y Rhigos yn un hawdd, roedd ef o'r farn y byddai'n haws peidio â gweithredu o gwbl ond byddai methu â gwneud hynny yn cael effaith andwyol ar yr ysgol a'i gallu i gyflwyno'r cwricwlwm i Gymru wrth i nifer y disgyblion ostwng, yn enwedig o ystyried y gydberthynas rhwng niferoedd disgyblion a chyllid. Ychwanegodd fod Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol yr 21ain Ganrif newydd sbon, mae gan yr ysgol y cyfleusterau gorau ac mae'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y dylai ymateb Estyn i'r cynnig roi rhywfaint o sicrwydd.

Cydnabu'r Cadeirydd y mater emosiynol oedd gerbron yr Aelodau a'r cydymdeimlad yr oedd yr Aelodau'n ei deimlo dros gymuned y Rhigos. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr am ymateb pellach i adroddiad Estyn a gofynnodd am eglurhad ar y broses o rannu manylion trafodaethau'r Pwyllgorau Craffu gyda'r Cabinet.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr drwy ddweud bod yn rhaid i Estyn ystyried gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a chydnabu fod yr ymateb gan Estyn yn un cadarnhaol ac ni chanfuwyd y byddai'r cynnig (a oedd yn cynnwys yr holl

dystiolaeth) yn cael effaith andwyol ar ansawdd addysg y plant. Cafodd yr Arolygiadau eu cynnal gan Estyn peth amser yn ôl, yn 2019, a phwysleisiwyd eu bod nhw'n cael eu cynnal ar adeg benodol a bod cyfraddau gwelliant yn amrywio. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y ddwy ysgol bellach yn y categorïau cymorth craidd ac nid yw'r naill na'r llall yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan Gonsortiwm Canolbarth y De.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gyngor ynghylch sylwadau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant, a ddosbarthwyd i'r Cabinet ddydd Gwener, 15 Rhagfyr (ar ôl cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor) cyn iddo ystyried y cynigion yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr. Cadarnhaodd fod y trefniadau yma'n bodloni'r mecanwaith cadarn sydd ar waith o ran defnyddio adborth Craffu i lywio trafodaethau'r Cabinet. O ran craffu cyhoeddus, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y cyhoedd wedi cael cyfle i weld y recordiad a gafodd ei gyhoeddi ar-lein yn syth ar ôl i gyfarfod y pwyllgor craffu ddod i ben a bod sawl cyfeiriad at adborth y Pwyllgorau Craffu yn ystod ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr.

Yn dilyn pryder pellach sy'n nodi na fyddai'r adborth i'r Cabinet wedi bod ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfod y Cabinet ar 18 Rhagfyr, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y dull sydd wedi'i fabwysiadu wedi'i roi ar waith cyn i'r Cyngor ddechrau recordio'r cyfarfodydd a bod yr adborth yn cael ei gyflwyno ar ffurf llythyr i'r Cabinet. Pwysleisiodd fod y llythyr yn cael ei gynnwys yn rhan o'r pecyn i'r Cabinet lle bo modd ac mae'r llythyr yn cynnig crynodeb o'r sylwadau sydd wedi'u cyflwyno ac nid yw'n cynnwys y drafodaeth lawn, y mae modd ei gweld ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn cais am eglurhad ynghylch pwrpas y broses Galw i Mewn, amlinellodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y prosesau statudol ar gyfer y cynnig, byddai'r rhain yn caniatáu cyfnod o 28 diwrnod, fan leiaf, ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau. Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod hwn, byddai Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei lunio a byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol er mwyn i Aelodau ei drafod.

Yn dilyn sylwadau cynharach mynegodd Aelod bryder nad oedd y broses galw i mewn yn cael sylw priodol nac yn cael ei hystyried fel arf hanfodol a bod y broses galw i mewn mewn gwirionedd yn gyfle i ofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad i fwrw ymlaen â'r broses statudol.

Gofynnodd Aelod am dystiolaeth bellach sy'n dangos bod yr holl opsiynau amgen wedi cael ystyriaeth briodol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a holodd a oedd achos busnes ar gyfer buddsoddi mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw wedi'i ystyried ar gyfer yr ysgol bresennol ac a oedd cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda llywodraethwyr yr ysgol. Darparodd y Cyfarwyddwr ymateb a phwysleisiodd ei bod yn bwysig peidio â diystyru'r lefel sylweddol o fuddsoddiad sydd ei angen ar Ysgol Gynradd y Rhigos. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod angen ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth ddarparu achos busnes cryf i Lywodraeth Cymru megis y data, niferoedd disgyblion, cyflwr yr adeilad, llunio cais ar gyfer buddsoddiad sylweddol gan hefyd ystyried barn gref a thristwch y disgyblion, rhieni a'r gymuned. Ychwanegodd mai'r opsiwn i gau'r ysgol sy'n cael ei ystyried fel yr opsiwn gorau yn y cyfnod ariannol heriol hwn.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid fod yn rhaid ystyried materion y tu hwnt i adeiladau'r ysgol, gan gynnwys trafod cynaliadwyedd cyllideb yr ysgol yn y dyfodol, sy'n cael ei

harwain gan ddisgyblion. Gyda niferoedd disgyblion yn gostwng, nid yw'r gyllideb refeniw ar gyfer costau staffio, costau rhedeg yr ysgol a chostau ynni yn gynaliadwy. Gofynnodd a fyddai busnesau lleol yn gallu ariannu refeniw blynyddol yr ysgol yn y dyfodol wrth i niferoedd disgyblion leihau. O ran safon Ysgol yr 21ain Ganrif, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr arolwg cyflwr adeiladau wedi'i gynnal ar adeg benodol, felly byddai'n anodd ariannu unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol gan na fyddai'r achos busnes yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion.

Roedd yr holl Aelodau'n cydymdeimlo â phryderon y rhieni, ond cydnabu nifer o Aelodau hefyd y byddai caniatáu i nifer y lleoedd dros ben barhau i fod yn uchel yn cael effaith andwyol ar hyfywedd ariannol Ysgol Gynradd y Rhigos yn y dyfodol ac yn effeithio ar addysg plant yn y dyfodol neu'n arwain at ddosbarthiadau cymysg i sicrhau deilliannau gwell.

Soniodd Aelod am ei brofiad personol o fod yn yr ysgol. Roedd ef mewn ysgol gyda dim ond 48 o ddisgyblion mewn dosbarth cymysg a symudodd o'r ysgol hon yn ardal Blaenrhondda i ysgol newydd gyfagos yn dilyn cau ei ysgol ei hun. Yn ei farn e, dyma oedd y penderfyniad cywir, roedd y penderfyniad wedi sicrhau bod ei gyfoedion wedi mwynhau cyfleusterau a oedd yn addas i'r diben ac yn rhoi cyfle i gymdeithasu â disgyblion o'r un oedran.

Roedd Aelod o'r farn y dylai'r broses galw i mewn fod yn broses gadarn a mynegodd bryder bod llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd a bod nifer fawr o wrthwynebiadau i'r cynnig, fel yr amlygwyd gan y siaradwyr. Ychwanegodd yr Aelod fod y cynnig yn rhoi cyfle i'r ALI ystyried safbwynt gwahanol a gweithio ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus, sy'n cael ei annog gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Anogodd y Cyngor i graffu'n iawn ar y mater ac ailystyried cau Ysgol Gynradd y Rhigos.

Gwahoddodd y Cadeirydd llofnodwr y ffurflen Galw i Mewn, y Cynghorydd D. Grehan, i annerch y Pwyllgor am y tro olaf.

Roedd y Cynghorydd Grehan o'r farn mai'r argraff gyffredinol yw bod y Cyngor ddim yn gwrando ar y trigolion, rhieni, na'r gymuned ac nid yw'r Cyngor mewn gwirionedd yn gwrando ar y dadleuon yn erbyn cau'r Ysgol. Mae hyn, yn ei farn ef, yn sefyllfa drist i'r Blaid Lafur. Cyfeiriodd y Cynghorydd at y plant sy'n hapus yn yr ysgol bresennol, a nododd hefyd nad yw'r Cyngor wedi gwrando ar eu barn nhw. Cyfeiriodd hefyd at gost trafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol.

Cynhaliodd y Cadeirydd bleidlais i benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet i'w ailystyried.

Ar ôl trafod y materion ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu, **PENDERFYNWYD** na ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet i'w ailystyried a bydd penderfyniad y Cabinet a gymerwyd ar 18 Rhagfyr yn dod i rym ar ddiwedd y cyfarfod.

(**Nodwch:** Ni phleidleisiodd y Cynghorydd K Morgan ar y mater (gweler Cofnod Rhif 47).

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 am**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**